

Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch Siarter Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau - 4 Chwefror 2015

Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2013, croesawyd argymhellion y Pwyllgor gennyf ar ei Siarter ar gyfer dyfodol Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

O dan y trefniadau presennol, mae nifer o'r materion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgor yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fel yr awdurdod masnachfaint ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr. Mae'r cyhoeddiad yn yr uwchgynhadledd buddsoddi economaidd ym mis Tachwedd i drosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol am fasnachfaint rheilffyrdd Cymru i Weinidogion Cymru yn ddatblygiad sydd i'w groesawu i sicrhau setliad tecach wedi'i ddatganoli ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd.

Roedd y Comisiwn Silk yn argymhell y dylid rhoi pwerau datganoli pellach i Gymru i adlewyrchu'r setliad datganoledig yn yr Alban. Mae hyn yn uchelgais inni o hyd, gan gynnwys cyfrifoldeb am bennu blaenoriaethau Network Rail ac ariannu'r rheilffyrdd yng Nghymru. Yng ngoleuni adroddiad Smith yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban, ein nod o hyd yw y dylid datganoli rheilffyrdd yng Nghymru i'r un graddau â'r setliad newydd sy'n cael ei gynnig ar gyfer yr Alban.

Bydd nodi a dyfarnu'r fasnachfaint nesaf yn gam pwysig ymlaen. Bydd yn rhoi'r cyfle inni gynllunio gwasanaethau rheilffyrdd Cymru sy'n cyfrannu'n llawnach at system drafnidiaeth gyhoeddus fwy integredig i gefnogi ein hamcanion economaidd a chymdeithasol ehangach.

Rwy'n derbyn bod cyfraniad y cyhoedd yn hanfodol er mwyn rheoli y fasnachfaint rheilffyrdd bresennol a nesaf yn barhaus. Mae'n rhaid i ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i deithwyr fod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau ar wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae'r penderfyniad i gadw y gwasanaethau i Harbwr Abergwaun a chyflwyno gwelliannau i reilffordd Canolbarth Cymru a rheilffordd Cambrian yn dangos ein hymrwymiad i wrando ar anghenion teithwyr.

Cynnydd

Flwyddyn wedi cyhoeddi'r Siarter, ac i ymateb i argymhelliad cyntaf y Pwyllgor, rydym wedi gwneud datblygiadau sylweddol o fewn Llywodraeth y DU i benderfynu ar ein swyddogaeth yn y dyfodol ym maes y fasnachfaint rheilffyrdd.

Casgliadau y gwaith sydd wedi ei wneud rhwng yr Adran Drafnidiaeth, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf yw ymrwymiad clir y bydd y penderfyniadau am y fasnachfaint rheilffyrdd nesaf i Gymru yn cael eu cymeryd gan Weinidogion Cymru. Rydym wedi sefydlu fframwaith sy'n egluro'r gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau bod y cyfrifoldeb am y fasnachfaint rheilffyrdd yn cael ei drosglwyddo'n esmwyth erbyn dechrau 2017.

Moderneiddio

Mae'r gytundeb ariannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd yn ein galluogi i fynd ymlaen â'r gwaith o foderneiddio seilwaith Cledrau'r Cymoedd. Bydd hyn yn creu yr amodau sydd eu hangen i gynllunio y gofynion o ran cerbydau ar draws rhwydwaith rheilffyrdd Cymru.

Cyfrifoldeb y cwmnïau trenau yw moderneiddio y cerbydau sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru o dan y fasnachfaint bresennol. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod cerbydau addas ar ein rheilffyrdd yn unol â'r gofynion sydd yn ein cytundeb masnachfaint.

Wrth gydnabod argymhelliad y Pwyllgor i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth gerbydau ar fyrder, cefais gyfarfodydd defnyddiol gyda chwmnïau lesio cerbydau yn ogystal â chynhyrchwyr cerbydau. Byddaf yn cynnal y drafodaeth hon i sicrhau y byddwn yn gweithredu'n briodol i sicrhau bod y cerbydau yng Nghymru yn cyd-fynd â gofynion Pobl â Chyfyngiadau Symudedd erbyn 2020 a'u bod yn gallu bodloni y galw gan deithwyr yn y dyfodol.

Roedd trydydd argymhelliad y Pwyllgor yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y staff cywir, sydd â'r profiad angenrheidiol a'r sgiliau arbenigol i ddatblygu a darparu masnachfaint newydd a'r cerbydau sydd eu hangen.

Rwy'n cydnabod yr angen i seilio'r broses o ddatblygu llwybrau a gwasanaethau rheilffyrdd ar y ddealltwriaeth fanwl o lif teithwyr o fewn a thu allan i Gymru yn ogystal â'r galw gan deithwyr yn y dyfodol y bydd yn angen i'n gwasanaethau ei fodloni. Yn 2015, byddwn yn parhau i wella'r sylfaen sgiliau o fewn fy adran a sicrhau bod modd cael gaffael ar y dystiolaeth allweddol sydd ei hangen er mwyn rheoli masnachfaint Cymru a'r Gororau yn effeithiol.

Model cyflawni

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddais fy mod yn sefydlu is-gwmni ddi-ddifidend o fewn perchnogaeth lwyr o Lywodraeth Cymru, fel rhan allweddol o'n dull o ddarparu system drafnidiaeth integredig mwy effeithiol yng Nghymru. Bydd y cwmni, yn y lle cyntaf, yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor ac arbenigedd dechnegol i yrru prosiectau cysylltiedig y Metro yn eu blaenau, gan nodi a chaffael y fasnachfaint nesaf yng Nghymru, a gweithredu prosiect moderneiddio Cledrau'r Cymoedd.

Bydd y cwmni newydd hwn yn galluogi imi sicrhau'r arbenigedd technegol a masnachol sydd ei angen i helpu fy adran gyflawni'r prosiectau cyffrous hyn.

Gwasanaethau eraill

Roedd y Pwyllgor yn tynnu sylw at yr angen i weithio'n adeiladol o fewn Adran Drafnidiaeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y broses o gaffael masnachfreintiau newydd yn ehangach, nid Masnachfreintiau Great Western ac Arfordir y Gorllewin yn unig. Yn ogystal â chanolbwyntio ar fasnachfaint Cymru a'r Gororau, rwy'n cymeryd dull proactif o fewn trafodaethau

gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod gwasanaethau rheilffyrdd pellter hir sy'n cael eu gweithredu gan fasnachfreintiau eraill yn bodloni anghenion pobl sy'n teithio i Gymru ac o Gymru. Mae sicrhau cysylltiad rhwng Cymru a phrif ganolfannau trefol yng ngweddill Prydain yn sylfaenol i'n llwyddiant economaidd.

Edwina Hart MBE CStJ AC